

# Paratoi ar gyfer argyfwng

## Beth rydych angen ei wybod

**Cyngor argyfwng i bobl yng Ngogledd Cymru**

# Beth yw Argyfwng?

## Ceir sawl math o argyfwng

Ymhlith y rhai mwyaf cyffredin yw:

Rhybudd Llifogydd Flood Warning

### Llifogydd

Os ydych yn byw mewn ardal lle mae perygl llifogydd gwnewch yr hyn a allwch i baratoi ar gyfer llifogydd. Lluniwch restr adolygu cynllun llifogydd sy'n egluro'n fanwl pa gamau i'w cymryd os cewch rybudd y gallai eich eiddo fynd dan ddŵr. Peidiwch ag aros nes bydd yn digwydd, efallai na fydd gennych amser.

Ffoniwch Floodline ar 0845 988 1188 neu ymweld ag www.asiantaeth-amgylchedd.gov.uk i gael gwybod a yw eich cartref neu fusnes mewn perygl o lifogydd.



## Tywydd garw

Stormydd, gwyntoedd cryfion, tywydd poeth, eira a rhew.



## Toriadau trydan a dŵr

Methiant cyflenwad nwy, ffôn neu drydan oherwydd stormydd neu dywydd garw, torri cyflenwad ar ddamwain gan gyflenwr, streic, methiant neu halogiad y cyflenwad dŵr.



## Damweiniau diwydiannol

Ffrwydradau nwy, colledion cemegol, tanau mawr neu ddigwyddiad niwclear.

Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatau amrywiol - ffoniwch 01492 863667 neu e-bost: nwrf@nwales-fireservice.org.uk

Fersiwn 1 - Gwanwyn 2010

# Yr hyn y gallwch ei wneud i baratoi

## Cymerwch amser i ddarganfod:

- Lle a sut i droi'r cyflenwadau dŵr, nwy a thrydan i ffwrdd yn eich cartref
- Sut fydd eich teulu'n cadw cysylltiad
- A fydd cymydog oedrannus neu ddiamddiffyn angen eich cymorth
- Sut i diwnio i mewn i'ch gorsaf radio leol

## Paratoi Bag Argyfwng yn cynnwys:

- Y daflen hon
- Pecyn cymorth cyntaf
- Radio, tortsh a batrïau dros ben
- Canhwyllau a matsis
- Dŵr potel
- Bwyd tun am 3 diwrnod ac agorwr tuniau
- Tameidiau i'w bwyta
- Os oes gennych anghenion ymborthol arbennig sicrhau eich bod yn mynd â'r bwydydd cywir, e.e. rhydd o glwten, bwyd babanod
- Bwyd anifeiliaid anwes a rhywbeth i gludo'r anifeiliaid
- Pethau ymolchi a meddyginiaeth reolaidd
- Dillad a blancedi dros ben
- Allweddi dros ben
- Copïau o ddogfennau pwysig, e.e. yswiriant adeiledd a chynnwys y tŷ, pasbort, trwydded yrru

# Os digwydd argyfwng

- Cadw'n dawel
- Meddwl cyn gweithredu
- Gwrando ar eich gorsaf radio a theledu lleol a gwrando ar gyngor y gwasanaethau brys



## Beth i'w wneud os ydych yn gorfod gadael eich cartref




- Casglwch eich Bag Argyfwng
- Casglu arian parod, ffôn symudol, cardiau credyd ac allweddi



## Os oes amser:

- Mynd â dillad cynnes i bawb
- Sicrhau diffodd tanau a holl daclau ac offer
- Cau holl ffenestri a chloi eich eiddo



# Am ragor o wybodaeth:

**Cyngor Sir Ynys Môn**
☎ 01248 750057 www.ynysmon.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
☎ 01492 574000 www.conwy.gov.uk

**Cyngor Sir Ddinbych**
☎ 01824 706101 www.sirddinbych.gov.uk

**Cyngor Sir y Fflint**
☎ 01352 752121 www.siryfflint.gov.uk

**Cyngor Gwynedd**
☎ 01766 771000 www.gwynedd.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
☎ 01978 264240 www.wrecsam.gov.uk

**Heddlu Gogledd Cymru**
☎ 101 www.north-wales.police.uk

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
☎ 01745 535 250 www.gwastan-gogcymru.org.uk

**Gwasanaeth Ambiwlans Cymru**
www.ambulance.wales.nhs.uk

**Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau EM**
☎ 01407 762051 www.mcga.gov.uk

**Asiantaeth yr Amgylchedd**
☎ 08708 506 506 www.asiantaeth-amgylchedd.gov.uk

**Galw Iechyd Cymru**
☎ 0845 46 47 www.nhsdirect.wales.nhs.uk

## Gwefannau defnyddiol eraill

www.direct.gov.uk
www.walesprepared.org
www.cymru.gov.uk
www.metoffice.gov.uk
www.bbc.co.uk/cymru

## Mewn argyfwng deialu 999

11406 AW 05.10 Dylunio-ac-Argraffu 01352 704000